# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

Amser: 09.20 - 12.43

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5913

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Hefin David AC<br>Suzy Davies AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC |
| Tystion: | Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Julie Morgan AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Yr Athro Jean White, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod; ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth isod, yn ysgrifenedig, ar ôl y cyfarfod:

- manylion swm y dyraniad ar gyfer addysg sydd wedi'i gynnwys yn Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Leol 2020-21, ynghyd â dadansoddiad sy'n cynnwys manylion y swm y bwriedir ei wario ar y cynnydd yng nghostau tâl a phensiynau athrawon a faint, wedyn, fydd yn gyllid ychwanegol gwirioneddol i ysgolion. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'w Gweinidog gadarnhau'r canlynol:
    - faint o gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer 2020-21 y mae Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU y gellir ei briodoli i gynydd mewn gwariant ar addysg yn Lloegr;
    - faint o arian ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer addysg, gan gynnwys dadansoddiad o faint sydd wedi'i gynnwys yn y setliad llywodraeth leol a faint sy'n cael ei sianelu drwy'r MEG Addysg;
- sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r gwariant sy'n deillio o'r £15 miliwn a ddyrannwyd i ariannu dysgu a datblygiad proffesiynol athrawon i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd;

- pryd y cyhoeddir y dyddiad y bydd angen darparu gwybodaeth am y dyraniadau amrywiol yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil ac arloesi, gan gynnwys manylion y swm o arian preifat y disgwylir ei drosoli (DS cadarnhawyd y caiff y wybodaeth hon ei darparu cyn gynted ag y bydd ar gael) - bydd y Pwyllgor yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor EIS ga ei bod yn berthnasol i bortffolio'r Pwyllgor hwnnw;
- manylion pellach am ganfyddiadau adolygiad mewnol Llywodraeth Cymru o sut y mae'r £100m a ddyrannwyd i wella safonau ysgolion drwy gydol y Cynulliad hwn yn cael ei wario a sut y mae canfyddiadau'r adolygiad wedi dylanwadodd y canfyddiadau hyn ar ddyraniadau cyllideb yn 2019-20 a 2020-21.
- Oherwydd prinder amser, ni lwyddodd y Pwyllgor i ofyn cwestiwn am gyllid ar gyfer plant o Leiafrifoedd Ethnig a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ond mae wedi gofyn am ymateb ysgrifenedig.

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

2.2 Cytunodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i ddarparu'r wybodaeth isod, yn ysgrifenedig, ar ôl y cyfarfod:

- y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau Llywodraeth Cymru yn dilyn ei gwaith archwilio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio Bondiau Effaith Gymdeithasol fel model buddsoddi ar sail canlyniadau i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, a hynny cyn gynted ag y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau;
- cadarnhad o ble yn union yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni mae manylion am yr "ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant" y cyfeirir ato yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y sesiwn hon;
- rhestr o brosiectau sy'n derbyn cyllid o dan y cynnig gofal plant ar gyfer lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen a Gofal Plant;

- copi o'r llythyr a anfonwyd at Chwarae Cymru yn amlinellu'r cylch gwaith sy'n gysylltiedig â'i gyllid yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a syniad o'r hyn y disgwylir i'r corff ei gyflawni â'r cyllid a ddyrennir iddo yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21;
- manylion pellach am y £2.3 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol yn ei Chyllideb Ddrafft 2020-21 ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu, a rhagor o fanylion am ei hymateb i bryderon Adoption UK Wales am y modd y bydd eu cais aflwyddiannus am gyllid Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector ar gyfer 2020-21 yn effeithio ar wasanaethau cymorth.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried yn fanylach y papur yn ymwneud â nodyn 9 (Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad) yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021 - Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y sesiynau ar gyfer craffu ar waith y Gweinidog.